

Hysbysiad Prosesu Teg – Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro

1. Pam ydym ni'n casglu a chadw eich gwybodaeth bersonol?

Casglwn a defnyddiwn eich gwybodaeth bersonol er mwyn i ni allu cofnodi a rhoi tystiolaeth o'r holl waith a wnaed gyda phobl ifanc gan staff Ieuenctid Sir Benfro a'r gwahanol fathau o brosiectau a wnaed gan y gwasanaeth ieuenctid.

Caiff eich data eu prosesu:

- Oherwydd bod hynny'n angenrheidiol i fesur perfformiad y gwasanaeth ieuenctid.

2. Sut gaiff gwybodaeth amdanoch chi ei defnyddio.

Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei phrosesu'n unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Deddf Plant 2004, Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a Fframwaith Datblygu ac Ymgysylltu ag Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

Mae'n ddyletswydd arnom i warchod yr arian cyhoeddus a weinyddwn a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennych ar y ffurflen hon i adolygu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei wario'n briodol ac yn effeithiol, i ddatblygu prosiectau newydd neu bresennol sy'n diwallu anghenion pobl ifanc yn Sir Benfro ac i hysbysu cyllidwyr o effaith gwaith Ieuenctid Sir Benfro. Byddwn yn croeswiro'r wybodaeth gydag ysgolion, y coleg, darparwyr hyfforddiant lleol, Adrannau Gofal Cymdeithasol, Gyrfa Cymru, Canolfannau Gwaith, yr Heddlu, Gwasanaeth Profiannaeth, Adran Dai CSP a Gwasanaethau Iechyd.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am ddatgelu / atal twyll neu sy'n archwilio / gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, fe all gwybodaeth gael ei rhannu gydag adrannau mewnol eraill Cyngor Sir Penfro ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i eraill at ddibenion marchnata

Bydd eich data'n ddiogel a chydgyfrinachol bob amser a byddwn yn casglu'n unig y wybodaeth bersonol sy'n ofynnol i asesu'ch hawl i wasanaethau gwaith ieuenctid arbenigol ychwanegol, h.y. camddefnyddio sylweddau, atal troseddu, iechyd rhywiol, iechyd emosiynol, ac ati.

3. Am faint fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddwyd i ni nes byddwch yn cyrraedd 26 oed a bydd eich gwybodaeth yn cael ei gwared yn ddiogel pan nad oes ei hangen mwyach.

4. Mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?

Gallwch ddod i wybod a ydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol trwy wneud cais mynediad yr unigolyn dan Reoliadau Cyffredinol Deddf Diogelu Data. I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym, mae angen i chi wneud eich cais yn ysgrifenedig a'i gyfeirio at:

Tim Mynediad at Gofnodion
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

5. Eich Hawliau.

Dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddaliwn amdanoch. Ni fydd pob hawl yn berthnasol a bydd yn dibynnu ar sail gyfreithiol prosesu eich data.

- Hawl i gael **gwybod** – mae gan unigolion hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio eu data personol. Mae hwn yn ofniad eglurder allweddol dan y RhDDC
- Hawl **mynediad** – mae gennych hawl i ofyn am fynediad at, a chopi o, wybodaeth a ddaliwn amdanoch
- Hawl i **gywiro** – mae gennych hawl i ofyn i'ch wybodaeth gael ei chywiro
- Hawl i **ddileu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich wybodaeth personol
- Hawl i **hygludedd data** – mae hyn yn berthnasol yn unig i brosesu data sy'n cael ei wneud trwy ddulliau awtomatig
- Fe all hawl i **gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, fe all hyn oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni ddal neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Hawl i **wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth personol.

6. Cwynion neu Ymholiadau.

Mae Cyngor Sir Penfro'n ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth personol. Oherwydd hyn, byddwn yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn ynghylch hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i dynnu ein sylw os ydynt yn credu bod ein casglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cyflawn o bob agwedd ar gasglu a defnyddio gwybodaeth personol gennym. Fodd bynnag rydym yn barod i roi unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd eu hangen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP

E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk

Ffôn: 01437 764551

Os ydych eisiau cwyno ynghylch sut ydym wedi prosesu eich gwybodaeth personol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio cyfraith diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF

E-bost caseworker@ico.org.uk Rhif Ffôn: 0303 123 1113

7. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Byddwn yn adolygu ein rhybudd preifatrwydd yn rheolaidd.